


CANLLAW CHUCK-A-PUCK CROESO CAERDYDD I...

NEUADD DEWI SANT



Lleoliad celfyddydau perfformio mwyaf Cymru gyda'r rhaglenni artistig mwyaf amrywiol.

Neuadd Dewi Sant, yng nghanol y ddinas Caerdydd, ydy Neuadd Gyngerdd Genedlaethol a Chanolfan Gynadledda Cymru. Yn eiddo i Gyngor Caerdydd ac yn cael ei rheoli a'i hariannu ganddo, mae'r Neuadd yn cynnig ystod eang o adloniant byw. Gyda dau far, ynghyd â gweithdai i gymryd rhan ynddynt, cynadleddau, staff cyfeillgar ac amgylchedd ymlaciol, mae Neuadd Dewi Sant yn adeilad i'w fwynhau yn ystod y dydd a chyda'r nos gydol y flwyddyn.

A hithau'n neuadd gyngerdd â 2,000 o seddi, gydag awditioriwm trawiadol ac o bosib yr acwsteg sain gorau yn Ewrop, ers ei hagog ym 1983 mae Neuadd Dewi Sant wedi cyflawni'r addewid o ddod yn ganolfan o ragoriaeth ddiwylliannol sy'n meddu ar raglen amrywiol o adloniant o safon sy'n hygyrch i bawb.

PEPPA PIG - MY FIRST CONCERT

Dydd Iau 28 am 2pm ynghyd â sesiwn gwrdd a chyfarch gyda Peppa a George.

Dydd Mercher, 27 Mai, 1.30pm a 3.30pm

Dydd Iau 28 Mai, 10am, hanner dydd a 2pm

GWYLIAU YSGOL

Mae From Mozart to Muddy Puddles! Peppa Pig - My First Concert yn gyflwyniad rhyngweithiol difyr i fyd y gerddorfa fyw gyda'r teulu hwn o foch sy'n ffefryn gyda phawb!

Mae Peppa a'i theulu yn eich gwahodd ar siwrnai gerddorol yn eu cyngerdd clasurol cyntaf! Ymunwch â Peppa wrth iddi ddarganfod cerddorfa am y tro cyntaf un yn y cyngerdd hygyrch a chyffrous hwn a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer yr aelodau ieuengaf o'r gynulleidfa.

Dewch i ganu a dawnsio gyda Peppa yn ei hoff ganeuon, gwyliwch wrth i Dadi Mochyn ddysgu sut i arwain cerddorfa, archwilio'r holl seiniau a wneir gan yr offerynnau a mwynhau alawon cyfarwydd yn ogystal â dysgu am ddarnau cerddorol cyffrous sy'n berffaith i blant bach. Dyma gyngerdd cyntaf gwych!

COFIWCH BRYNU EICH PYC I GYMRYD RHAN YN Y GYSTADLEUAETH HWYL AR NOSON Y GÊM!



St David's Hall
Neuadd Dewi Sant

Dysgwch fwy yn croesocaerdydd.com

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol!
#CroesoCaerdydd

